

Cofrestr yr NMC yng Nghymru

1 Ebrill 2023 -
31 Mawrth 2024



Croeso i'n hadroddiad data blynyddol ar gofrestr yr NMC, yn cynnig trosolwg o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru.

Mae ein data unigryw yn rhoi cyfrif diffiniol o faint o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer yn y DU, faint sy'n ymuno ac yn gadael y gweithlu, lle cawsant eu haddysgu, newidiadau demograffig a mwy. Mae ein harolwg ymadawyr sy'n cyd-fynd yn rhoi cipolwg ar resymau pobl dros adael.

Y darlun mawr

Mae gan gofrestr yr NMC yng Nghymru fwy o nyrsys a bydwragedd¹ nag erioed o'r blaen - **40,494**. Mae hynny **1,275 (3.3 y cant)** yn **fwy** o weithwyr proffesiynol cofrestredig na 12 mis yn ôl, a **4,493 (12.5 y cant)** yn **fwy** na phum mlynedd yn ôl.

Rydym yn croesawu hyn yng nghyd-destun y galw cynyddol am iechyd a gofal a phwysau parhaus ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwelsom ehangu parhaus yn nifer y rhai sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf, gyda **2,029** o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol newydd yn cofrestru gyda ni yng Nghymru eleni yn unig. O'r rhain, cafodd **82.8 y cant** eu haddysgu yn y DU (**1,679**). Mae hynny **14.1 y cant** yn fwy o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (**1,472**) a **34.9 y cant yn fwy** na'r un cyfnod yn y flwyddyn 2018-2019 (1,245). Mae hyn yn nodi cynnydd cyson parhaus yn nifer y rhai sy'n ymuno â addysg yn y DU yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **1,441** o weithwyr proffesiynol y gofrestr yng Nghymru. Fel cyfran o'r gofrestr, nid yw hyn wedi newid yn fawr iawn - o **4 y cant** yn y flwyddyn 2018-2019, i **3.7 y cant** yn y flwyddyn ddiwethaf. O'r gweithwyr proffesiynol hyn, gadawodd **9.8 y cant** o fewn y deng mlynedd gyntaf ar ôl ymuno â'r proffesiwn o'u dewis.

¹ Mae 33 o gymdeithion nyrsio yn byw yng Nghymru ond ar hyn o bryd, dim ond Lloegr sy'n defnyddio'r rôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cymdeithion nyrsio yng Nghymru yn amodol ar newidiadau yn ein deddfwriaeth.

40,494

weithwyr proffesiynol ar y gofrestr yng Nghymru



O fis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd

Cynnydd o

1,275

+3.3%



+3.1%



Nyrsys

38,075

+6.4%



Bydwragedd

2,025

-2.2%



Unigolion cofrestredig deuol

361

+13.8%



Cymdeithion Nyrsio¹

33

Yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022-2023

+21.8%



2,029

a ymunodd â'r gofrestr

+5.2%



1,441

a adawodd y gofrestr

Twf parhaus o wledydd tramor

Mae lefelau'r gweithwyr proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol a ymunodd yng Nghymru ar eu uchaf ers y flwyddyn 2018-2019. Er bod y grŵp hwn yn dal i fod yn ganran fach o ymunwyr, mae'n cynrychioli carfan sy'n tyfu'n gyflym. Roedd **350** o ymunwyr newydd a gafodd eu haddysgu y tu allan i'r DU, **cynnydd o 80.4 y cant** o'r un amser yn y flwyddyn flaenorol.


O'r rhain, cafodd **47.7 y cant** eu haddysgu yn India (**167**). India bellach yw'r wlad fwyaf cyffredin ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a addysgwyd yn rhyngwladol yng Nghymru (**1,459**) gan oddiweddyd Ynysoedd y Philipinos (**1,369**). Yn y cyfnod adrodd hwn, ymunodd **40** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn Ynysoedd y Philipinau â'n cofrestr².

Er bod recriwtio o wledydd 'rhestr goch' yng Nghymru yn llai na'r darlun DU gyfan, rydym yn dal i weld gweithwyr proffesiynol yn ymuno o wledydd lle na chaniateir recriwtio gweithredol. Rydym yn ddiolchgar i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n dewis defnyddio eu sgiliau i ddarparu gofal diogel a charedig i bobl yn y DU.

Rydym yn atgoffa cyflogwyr ac asiantaethau i ddilyn y codau ymarfer perthnasol i helpu i gynnal safonau moesegol a chefnogi tegwch iechyd byd-eang.

² Gwyddom y bydd y ffigur hwn yn is na'r niferoedd gwirioneddol sy'n ymuno yng Nghymru, gan nad oes angen i weithwyr proffesiynol roi cyfeiriad yn y DU i ni er mwyn ymuno â'r gofrestr. Gall gweithwyr proffesiynol ymuno â'r gofrestr gyda chyfeiriad y tu allan i'r DU. Gallant ein helpu i wella gwerth ein data ymhellach drwy roi eu cyfeiriad yn y DU i ni cyn gynted ag y bydd ganddynt un, y gallant ei wneud drwy [NMC Online](#). Bydd hyn yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o bwy sydd ar y gofrestr a ble maent yn byw.

Gwledydd addysg uchaf y tu allan i'r DU ym mis Mawrth 2024, o gymharu â'r llynedd



O fis Mawrth 2024

45 mlwydd oed




yw oedran cyfartalog gweithwyr proffesiynol yng Nghymru

12.2%

o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2019, roedd **9.3%** o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

Rhaniad rhywedd y gofrestr



Newidiadau demograffig i'r gofrestr

Yng Nghymru, rydym yn parhau i weld newidiadau ymylol ym mhroffil ethnig y gofrestr wrth i recriwtio rhyngwladol gynyddu'n araf, ochr yn ochr â charfan ethnig amrywiol o ymunwyr sydd wedi'u haddysgu yn y DU. Mae gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig bellach yn cyfrif am **12.2 y cant** o weithwyr proffesiynol yng Nghymru, i fyny o **9.3 y cant** bum mlynedd yn ôl. Yn ogystal, roedd **7.7 y cant** o ymunwyr y DU yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

Pam wnaeth pobl adael y gofrestr yng Nghymru?


Ers 2017 rydym wedi cynnal arolwg blynyddol o weithwyr proffesiynol a adawodd ein cofrestr, i ofyn iddynt pam y gwnaethant adael. Cynhaliom ein harolwg diweddaraf ym mis Mawrth 2024. Gallwch ddarllen rhagor o fanylion yn ein [Crynodeb cynhwysfawr o Arolwg Ymadawyr y Gofrestr yr NMC](#).

Yn arolwg eleni, mae cyfran yr ymadawyr yng Nghymru a fyddai'n argymell gyrfa fel nyrs neu fydwraig yn parhau'n isel, er ei fod wedi cynyddu o **16 y cant** y llynedd, i **18 y cant** eleni.

Yn unol â chanfyddiadau arolwg y llynedd, gadawodd oddeutu hanner yr holl ymatebwyr yn gynharach na'r disgwyl - yn nodweddiadol bum mlynedd yn gynt na'r disgwyl.

Yng Nghymru, mae'r pedwar prif reswm - ymddeol, iechyd gwael, lludded, a newid mewn amgylchiadau personol - yn gyson â darlun y DU gyfan ac maent yr un fath â'r llynedd. Eleni, "diffyg cefnogaeth gan gydweithwyr ac uwch aelodau o staff" yw'r pumed prif reswm a grybwyllwyd gan bobl yng Nghymru dros adael y gofrestr. Roedd "profiadau o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu" hefyd yn uwch yng Nghymru na sampl cyffredinol yr arolwg.


Y crefyddau sy'n tyfu gyflymaf ar y gofrestr ym mis Mawrth 2024, o gymharu â'r llynedd




O fis Mawrth 2024

1,208 o 40,494 o bobl wedi datgan anabledd

Cyfeiriadedd rhywiol ym mis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd



Amser ar y gofrestr o fis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r llynedd



Gwella profiad gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd

Rydym yn gobeithio y gall partneriaid a'r sector ehangach ddefnyddio'r trosolwg hwn o'n cofrestr yng Nghymru, ochr yn ochr â'n [tablau data](#) and [Chrynodeb o Arolwg yr NMC o Ymadawyr â Chofrestr yr NMC](#) wrth iddynt gynllunio'r gweithlu.


Cysylltwch ag unrhyw gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn.



Matthew McClelland,
Cyfarwyddwr Gweithredol
Strategaeth a Mewnwelediad



O fis Mawrth 2024,
o gymharu â'r
llynedd



Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud dros y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.



Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr pob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'i cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk

 @nmcnews  @nmcuk

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth